

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd
(Cymru)**

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddMCD@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar Fil Iechyd y Cyhoedd
(Cymru)**

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Dafydd Elis-Thomas
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	6
Cylch Gwaith y Pwyllgor	6
Cyflwyno ac ystyried y Bil.....	6
2. Y cefndir.....	7
Pwrpas y Bil.....	7
3. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	9
Cyffredinol	9
Datganiad y Llywydd am gymhwysedd deddfwriaethol	9
Tystiolaeth gan y Gweinidog am gymhwysedd deddfwriaethol....	10
Ystyried hawliau dynol.....	11
Ein barn ni.....	15
4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	16
Y cefndir	16
Rhan 2 - Tybaco a Chynhyrchion Nicotin	16
Adran 6 - Gweithleoedd.....	17
Ein barn ni.....	18
Adran 12 - Awdurdodau gorfodi	18
Ein barn ni.....	19
Adran 23 - Cais am gofnod yn y gofrestr.....	20
Ein barn ni.....	21
Adran 40 - Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad: trosedd o ran tybaco neu nicotin.....	22
Ein barn ni.....	23
Rhan 3 - Triniaethau Arbennig	23
Adran 51 - Meini prawf trwyddedu; Adran 52 - Amodau trwyddedu mandadol.....	23
Ein barn ni.....	25

Adran 58 - Rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth	25
Ein barn ni.....	27
Adran 76 - Pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig	27
Ein barn ni.....	28
Adran 77 - Dehongli'r rhan hon	28
Ein barn ni.....	30
Adran 101 - Dod i rym	30
Ein barn ni.....	31
Atodiad 1 – Llythyr gan y Llywydd	32

Argymhellion y Pwyllgor

Agrymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil gan ddiffinio "caeedig" a "sylweddol gaeedig" ar wyneb y Bil. Os nad oes modd darbwylo'r Gweinidog i wneud hyn, dylai gyflwyno gwelliant i'r Bil yn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r broses o wneud rheoliadau o dan adran 6(7). (Tudalen 18)

Agrymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 12 o'r Bil i'w gwneud yn glir mai awdurdodau cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi o dan y Bil. (Tudalen 19)

Agrymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 23(3). (Tudalen 21)

Agrymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 12(1A) o *Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933* (fel y'i mewnosodir gan adran 40(2) o'r Bil). (Tudalen 23)

Agrymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys rhywfaint o feini prawf sylfaenol, craidd sy'n ymwneud â thrwyddedu yn adran 51 a rhywfaint o amodau sylfaenol craidd yn adran 52. (Tudalen 25)

Agrymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn dweud mai'r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei dilyn i wneud rheoliadau o dan adran 58(6). (Tudalen 27)

Agrymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 76(1). (Tudalen 28)

Agrymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn dweud mai'r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei dilyn wrth wneud rheoliadau o dan adran 77(1). (Tudalen 30)

Agrymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n rhoi'r weithdrefn negyddol ar waith ar gyfer gorchmynion cychwyn a wneir yn unol ag adran 101(3)(b) o'r Bil sy'n cynnwys darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. (Tudalen 31)

1. Cyflwyniad

Cylch Gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol sydd wedi'u rhestru yn Rheol Sefydlog 21 ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu sy'n berthnasol iddo.
2. O fewn hyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol ac agweddau technegol pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y bydd Gweinidogion Cymru'n ei wneud ac yn adrodd ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau ar ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau Biliau'r Cynulliad a Mesurau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth a bydd yn adrodd yn eu cylch.

Cyflwyno ac ystyried y Bil

4. Ar 8 Mehefin 2015, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC (y Gweinidog) Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.¹ Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi hefyd.²
5. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn iddo'i ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol, gan bennu dyddiad cwblhau, sef 27 Tachwedd 2015.
6. Ystyriwyd y Bil gennym ar 21 Medi 2015, gan gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog.

¹ Llywodraeth Cymru, *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn Ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Mehefin 2015

² Llywodraeth Cymru, *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Datganiad o fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth*, Mehefin 2015

2. Y cefndir

Pwrpas y Bil

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

“Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (y Bil) yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella ac amddiffyn iechyd a lles poblogaeth Cymru Mae'n cynnwys cyfres o ddarpariaethau mewn meysydd annibynnol o bolisi iechyd y cyhoedd.

... Gyda'i gilydd, y bwriad yw i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronus i boblogaeth Cymru a cheisio sefydlu amgylchiadau sy'n ffafriol i iechyd da, ac a fydd yn caniatáu ar gyfer atal niwed i iechyd.”³

8. Mae'n ychwanegu bod y Bil yn cynnig cyflwyno newidiadau mewn nifer o feysydd polisi penodol. Sef:

- gosod cyfyngiadau ar y defnydd o dybaco a dyfeisiau mewnanadlu nicotin er enghraifft sigarêts electronig mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau i fannau agored penodol;
- darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
- gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
- darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal “triniaethau arbennig” sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio;
- cyflwyno gwaharddiad ar dyllu rhannau personol o gorff unigolyn o dan 16 oed;

³ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1-2

- newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol Byrddau Iechyd Lleol, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol; a
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd.⁴

⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

3. Cymhwysedd deddfwriaethol

Cyffredinol

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod gwneud y ddeddfwriaeth hon o fewn cymhwysedd y Cynulliad oherwydd bod a wnelo darpariaethau'r Bil â'r pynciau a ganlyn yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*:

- Pwnc 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Pwnc 12: Llywodraeth Leol
- Pwnc 15: Lles Cymdeithasol.⁵

10. Mae hefyd yn dweud:

“Mae Rhan 2 y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n dileu swyddogaethau cyn-gychwyn Gweinidog y Goron. Bydd y darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r darpariaethau o dan Ran 3 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt gyda golwg ar gael y cydsyniad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd trafodaethau ar faterion cydsynio yn dod i ben yn ystod Cyfnod 1.”⁶

Datganiad y Llywydd am gymhwysedd deddfwriaethol

11. Ar 8 Mehefin 2015, cyhoeddodd y Llywydd ei Datganiad am Gymhwysedd Deddfwriaethol yn unol ag adran 110(3) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Roedd yn dweud:

- Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyflwynwyd ar 8 Mehefin 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Nid yw adrannau 4(7), 5(6), ac 11(7) a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1 o fewn cymhwysedd. Y rheswm am hyn yw bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn dod â'r

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac na chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hyd yn hyn.⁷

12. Ar 23 Mehefin 2015, ysgrifennodd y Llywydd atom yn rhoi rhagor o wybodaeth inni am ei datganiad gan dynnu ein sylw'n benodol at gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a'r materion ynghylch hawliau dynol a ystyriwyd ganddi wrth lunio'i barn. Atodir copi o'r llythyr yn Atodiad 1.

Tystiolaeth gan y Gweinidog am gymhwysedd deddfwriaethol

13. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn hyderus bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.⁸ Dywedodd hefyd:

“I'm aware as well of differences of views that can be there between lawyers on an interpretation of section 110(2) of the Government of Wales Act. As you know, from the Government perspective, we take the use of a conditional tense in that clause to be deliberate—that it

‘would be within the Assembly’s legislative competence’.

“We rely on the conditional in two ways: one that, of course, the Bill has to secure the approval of the National Assembly to appear on the statute book. In that sense, if it doesn't, it is not within competence. Secondly, we believe that it allowed me to make that declaration despite the fact that we are still seeking a number of consents from the Secretary of State. If we can't secure those consents in the way that we confidently expect to secure them, then we would have to bring the Bill within competence in a different way.”⁹

14. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y trafodaethau ynghylch sicrhau cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol:

“There have been very recent discussions between officials—my officials and officials in the Wales Office. Those discussions continue to give us confidence that we will secure the consents that are necessary for those three sections and the two

⁷ Datganiad y Llywydd o Gymhwysedd Deddfwriaethol, Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), 8 Mehefin 2015

⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [6], 21 Medi

⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraffau [6-8], 21 Medi 2015

paragraphs in Schedule 1 prior to the end of Stage 1 proceedings.”¹⁰

Ystyried hawliau dynol

15. Roedd llythyr y Llywydd ar 23 Mehefin yn sôn am faterion sy’n gysylltiedig â hawliau dynol, gan nodi bod darpariaeth Bil y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, o dan adran 108(6)(c) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, os nad yw’n gydnaws â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

16. Holwyd y Gweinidog ynghylch tri mater sy’n berthnasol i hawliau dynol ac rydym yn ystyried y rhain isod.

17. Yn gyntaf, holwyd y Gweinidog a oedd yn meddwl bod darpariaethau’r Bil ynglŷn â gweithle di-fwg (adran 6), sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio’n anheddiad preifat, yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau unigolion o dan Erthygl 8 o’r Confensiwn i warchod rhag peryglon iechyd a’r hawl i fwynhau eu cartref eu hunain heb i’r wladwriaeth darfu arnynt yn ddiangen.

18. Esboniodd y Gweinidog sut yr oedd wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr hawliau hynny yn y Bil sy’n groes i’w gilydd:

“...what this Bill says is that, in future, you will not be able to smoke, or use an e-cigarette, in any part of a dwelling that is used for business purposes, whether that is continuously or intermittently. But, in the parts of your home that are not used for business, and outside business hours, you will be able to use all of the dwelling to smoke in, or to use an e-cigarette. In doing so, you are balancing the rights of the homeowner to the human rights that they possess in relation to the enjoyment of their private property against the rights of users of the home for business purposes, who have a right to be protected against second-hand smoke and the potential impacts on their health. So, we balance those rights against one another, and we offer additional protection to the user of the premises, because it’s now not possible for a person running a business to circumvent the law by designating a room as only occasionally used for business, and therefore smoking can be allowed in it.

¹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [10], 21 Medi 2015

Wherever business is conducted during business hours, they will be smoke free, and we believe that that protects the rights of the person visiting. But the rights of the homeowner are protected because any part of the dwelling that is not used for business can be smoked in, and once business is over, smoking can take place anywhere in the premises.”¹¹

19. Yn ail, gofynnwyd i'r Gweinidog a yw'n fodlon ei bod yn gymesur gorfodi cosbau troseddol ar unigolion am ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd gan gynnwys aneddiadau preifat a ddefnyddir yn weithle, yn enwedig o gofio adroddiad diweddar gan Public Health England a oedd yn awgrymu nad oes tystiolaeth bod e-sigaréts yn ailnormaleiddio ysmegu.¹²

20. Esboniodd y Gweinidog bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, sef:

“...in future, in Wales, if this Bill is passed, e-cigarettes will be able to be used everywhere that a conventional cigarette can be used, and won't be able to be used anywhere a conventional cigarette cannot be used.”¹³

21. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru'n credu y gallai caniatáu i bobl ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau lle nad oes modd defnyddio sigaréts cyffredin ailnormaleiddio ysmegu.”¹⁴

22. Cyfaddefodd fod anghytundeb ynglŷn â'r dystiolaeth ynghylch ailnormaleiddio¹⁵ ond dywedodd:

“As health Minister, I believe it is my duty to take a precautionary approach. Where there is evidence of harm or potential harm, we shouldn't wait to see whether that harm has actually been realised; we should act to prevent its possibility. The policy, therefore, of the Welsh Government—which may not be consistent with Public Health England and its report, which

¹¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [90], 21 Medi 2015

¹² Public Health England, *E-cigarettes: an evidence update, a Report commissioned by Public Health England*, August 2015

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [99], 21 Medi 2015

¹⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [99], 21 Medi 2015

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [100], 21 Medi 2015

The Lancet, I see in its editorial, described as based on ‘extraordinarily flimsy’ foundations—our policy is consistent with that advocated, for example, by the British Medical Association, the World Health Organization and a whole range of other very responsible and respectable medical organisations.”¹⁶

23. O ran bod y dull a oedd yn cael ei fabwysiadu’n gymesur, esboniodd y Gweinidog y drefn orfodi yn y Bil¹⁷ cyn ychwanegu:

“I think that having the backstop of a criminal sanction is necessary, but it is very much a backstop, not where the weight of enforcement would lie, and therefore I think is a proportionate response to the nature of the problem we are trying to solve.”¹⁸

24. Yn olaf, gofynnwyd am bwerau mynediad er mwyn gorfodi gwarant o dan adrannau 14 ac 16 o’r Bil, o ystyried y posibilrwydd o darfu’n ddifrifol ar yr hawl i barch at fywyd preifat, bywyd teulu a’r cartref o dan Erthygl 8 o’r Confensiwn.

25. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod hwn yn fater difrifol y mae angen ei ystyried yn drwyadl.¹⁹ Dywedodd wrthym fod y Bil yn ceisio sicrhau’r cydbwysedd cywir mewn tair ffordd.²⁰

26. Yn gyntaf, oherwydd y byddai’n rhaid i awdurdod gorfodi weithredu ar sail gwarant, a fyddai’n golygu bod angen perswadio ynad bod angen gwarant a bod hynny’n gymesur.²¹

27. Yn ail, cadarnhaodd y Gweinidog mai ei fwriad oedd dynodi cyrff cyhoeddus yn unig yn awdurdodau gorfodi.²²

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [100], 21 Medi 2015

¹⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraffau [101-103], 21 Medi 2015

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [103], 21 Medi 2015

¹⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [110], 21 Medi 2015

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [110], 21 Medi 2015

²¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [110], 21 Medi 2015

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [111], 21 Medi 2015

28. Yn drydydd, mewn sefyllfaoedd lle byddai corff cyhoeddus dynodedig yn trosglwyddo gweithgarwch gorfodi i gorff arall. O dan amgylchiadau o'r fath, dywedodd y Gweinidog :

“... we have to rely on the fact, I think, that any public body that is handing on the enforcement activity to somebody else—it still retains the duties that it has under human rights legislation to ensure that that person acting on their behalf is acting in a proper and competent manner. I think it's also arguable, under human rights law, that, if that organisation to whom the enforcement activity has been handed is carrying out duties of a public nature, as the Human Rights Act 1998 says, then they are directly captured by the obligations of the Human Rights Act, not just on the grounds that they are carrying them out on behalf of someone who is captured by them.”²³

29. Aethom ar drywydd y pwynt hwn drwy ofyn a fyddai gweithwyr ychwanegol a fyddai'n hebrwng awdurdod lleol (er enghraifft arbenigwyr mewn maes penodol) yn gorfod cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol. Dywedodd cyfreithiwr a oedd gyda'r Gweinidog wrthym:

“... the local authority and those persons attending with the local authority ... Those persons would be acting on behalf of the local authority, and, of course, the local authority is subject to a duty of reasonableness and rationality under general public law principles. So that would also serve to protect the homeowner in those cases.”²⁴

a

“I'm content that those persons acting on behalf of the local authority would be subject to the requirements of the Human Rights Act. The local authority wouldn't be absolved of its responsibility by the fact that they are delegating their functions to a third party.”²⁵

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [112], 21 Medi 2015

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [117], 21 Medi 2015

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [120], 21 Medi 2015

Ein barn ni

30. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynglŷn â gallu'r Cynulliad i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rydym hefyd yn nodi, ers i'r Gweinidog roi ei dystiolaeth, bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi ei gydsyniad²⁶ ynghylch y materion y cyfeiriwyd atynt yn Natganiad Cymhwysedd Deddfwriaethol y Llywydd.

31. Mae'n amlwg i ni, o'r atebion a roddwyd gan y Gweinidog, bod Llywodraeth Cymru wedi meddwl yn ddwys am y goblygiadau i hawliau dynol unigolion o ran y materion penodol a godwyd gydag ef.

²⁶ Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Prif Weinidog *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*, 28 Hydref 2015

4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Y cefndir

32. Mae 102 o adrannau i'r Bil hwn, wedi'u rhannu'n 7 rhan, a 4 Atodlen.
33. Mae'r Bil yn cynnwys y pwerau a ganlyn ar gyfer Gweinidogion Cymru:
- 48 pŵer i wneud rheoliadau;
 - un pŵer i wneud gorchymyn; ac
 - un pŵer i gyhoeddi canllawiau.
34. Dywed y Memorandwm Esboniadol:
- "Pan fo'r Bil yn rhoi pwerau i is-ddeddfwriaeth ragnodi materion technegol y gallai eu manylion newid o bryd i'w gilydd, ystyrir mai'r weithdrefn negyddol sydd fwyaf priodol. Pan fo pŵer yn y Bil yn rhoi pŵer sylweddol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau, pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol neu roi baich ariannol ar y cyhoedd, ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol sydd fwyaf priodol."²⁷
35. Rydym yn cynnig sylwadau am rai o'r pwerau hyn isod.

Rhan 2 - Tybaco a Chynhyrchion Nicotin

36. Mae Rhan 2 wedi'i rhannu'n 4 pennod:
- Mae Pennod 1 (adrannau 2-21): Yn cyfyngu ar ysmegu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg;
 - Mae Pennod 2 (adrannau 22-39): Yn sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
 - Mae Pennod 3 (adran 40): Yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;

²⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 262

- Mae Pennod 4 (adrannau 41- 44): Yn gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin (pan fyddant yn cael eu danfon neu eu casglu mewn cysylltiad â'u gwerthu) i berson o dan 18 oed;

Adran 6 – Gweithleoedd

37. Mae Adran 6(1) yn dweud bod mangreoedd yng Nghymru yn ddi-fwg at ddibenion Pennod 1 os ydynt yn weithleoedd ac mae adran 6(2) yn diffinio gweithle.

38. O dan Adran 6(4) o'r Bil, dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig y mae'r fangre yn ddi-fwg. Mae Adran 6(7) yn caniatáu i Weinidog Cymru bennu drwy reoliadau beth yw ystyr "caeedig" a "sylweddol gaeedig".

39. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi a'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai'r weithdrefn negyddol sy'n briodol oherwydd bod y pwnc yn "gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol" ac yn "dechnegol".²⁸

40. Pan holwyd y Gweinidog am y weithdrefn ar gyfer llunio'r rheoliadau hyn, dywedodd:

"I accept the general argument that it would be possible to apply the affirmative procedure to this aspect of the Bill ... the precedent here was the Health Act 2006 and the definitions of 'enclosed' and 'substantially enclosed' public places in that Act. The regulations that gave expression to that were navigated by the negative procedure; they gave rise to the 2007 regulations.

"... I struggle a little bit to see how much scope there is to make that definition different to the definition that we currently use. These have to be enclosed or substantially enclosed public places, and I don't know quite how much scope there will be to deviate from the definitions that we already use. Certainly, it is our policy intent to pick up the 2007 regulation definitions and to use them again for the purposes of this Bill. On those grounds, we feel that we are simply taking forward definitions that have proved satisfactory and have not been controversial

²⁸ Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 7; Memorandwm Esboniadol, Adran 5, tudalen 64

in the scrutiny that they've required under previous legislation and that the negative procedure is adequate to the task.”²⁹

41. Ychwanegodd ei fod yn meddwl ei bod yn well mynd ar drywydd y materion hyn drwy reoliadau na'u rhoi ar wyneb Bil.³⁰

Ein barn ni

42. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol inni ddilyn y drefn a fabwysiedir ym Miliâu'r Deyrnas Unedig bob tro. Rydym yn credu ei bod yn synhwyrol mabwysiadu dull gwahanol yng nghyfraith Cymru os oes rhinwedd yn hynny.

43. Yn yr achos hwn, credwn fod y diffiniadau o “caeedig” a “sylweddol gaeedig” yn ganolog i'r Bil. Os yw'r diffiniad yn annhebygol o fod yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn rheoliadau 2007, fel y dywed y Gweinidog, mae'n gwneud i rywun holi pam nad yw'r diffiniadau hyn wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil er mwyn cynnig sicrwydd i'r rhai y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt.

44. Fel rheol gyffredinol, byddai'n ymddangos i ni ei bod yn synhwyrol diffinio termau a ddefnyddir mewn Bil ar wyneb y Bil hwnnw ac ni welwn reswm dros beidio â gwneud hynny yma, yn enwedig o ystyried sylwadau'r Gweinidog.

45. Serch hynny, os bydd y Gweinidog yn penderfynu peidio â chynnwys diffiniadau ar wyneb y Bil, yna, dylai'r rheoliadau ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil gan ddiffinio “caeedig” a “sylweddol gaeedig” ar wyneb y Bil. Os nad oes modd darbwyllo'r Gweinidog i wneud hyn, dylai gyflwyno gwelliant i'r Bil yn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r broses o wneud rheoliadau o dan adran 6(7).

Adran 12 - Awdurdodau gorfodi

46. Mae Adran 12 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gorfodi i orfodi darpariaethau di-fwg Pennod 1 o'r Bil ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi unigolion (neu ddisgrifiadau o

²⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraffau [23-24], 21 Medi 2015

³⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [26], 21 Medi 2015

unigolion) yn awdurdodau gorfodi. Ar hyn o bryd, mae cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru wedi'u dynodi i orfodi darpariaethau di-fwg *Deddf Iechyd 2006*.

47. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau lleol. Gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd y rhesymau dros hyn ac a fyddai'n ddymunol dynodi cyrff cyhoeddus eraill, cyrff gwirfoddol neu gwmnïau preifat yn awdurdodau gorfodi.

"It's not my intention to designate anything other than public authorities as enforcement authorities for the purpose of this Bill. For the majority of its provisions, local authorities will indeed be the enforcement authorities, but they are not necessarily exclusively the enforcement authorities ... the reason why we don't simply require Welsh Ministers to designate local authorities is, although, for the most part, they will be, there will be some examples where others can be involved, and therefore we don't want to prevent us from being able to designate them, too."³¹

48. Dywedodd y Gweinidog fod yr heddlu a'r parciau cenedlaethol wedi'u dynodi'n awdurdod gorfodi mewn rhai achosion.³²

Ein barn ni

49. Dywedodd y Gweinidog mai awdurdodau cyhoeddus fyddai'r awdurdodau gorfodi o dan y Bil. Os felly, nid yw'n glir pam nad yw hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar wyneb y Bil, yn enwedig o ganlyniad i adran 16 (sy'n caniatáu i swyddog gorfodi, sydd eisoes wedi cael gwarant gan ynad heddwch, fynd â pha bobl a chyfarpar bynnag ag y bydd y swyddog yn ystyried eu bod yn briodol wrth fynd i mewn i fangre i weld a yw trosedd wedi'i chyflawni).

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 12 o'r Bil i'w gwneud yn glir mai awdurdodau cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi o dan y Bil.

³¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [31], 21 Medi 2015

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [31], 21 Medi 2015

Adran 23 - Cais am gofnod yn y gofrestr

50. Mae Adran 23 yn caniatáu i fanwerthwyr wneud cais am gofnod yn y Gofrestr Manwerthwyr Tybaco a Chynhyrchion Nicotin. Dim ond os yw'r ceisydd yn gorfod cydymffurfio â Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad o dan adran 12B o *Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933* y caiff yr awdurdod cofrestru wrthod cais. Mae Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gwahardd unigolyn a enwir a gafwyd yn euog o drosedd yn ymwneud â thybaco rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at 12 mis.

51. Nid oes modd ychwanegu mangre at y gofrestr os yw eisoes yn gorfod cydymffurfio â Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad o dan adran 12A o *Ddeddf 1933*. Os bydd y cais yn cynnwys mwy nag un fangre, yna, dim ond y fangre nad yw'n gorfod cydymffurfio â Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad a gaiff ei hychwanegu at y gofrestr.

52. Gorchymyn gan lys ynadon yw Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad sy'n gwahardd mangre manwerthu rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at 12 mis. Mae hyn yn gwahardd gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco, gan gynnwys papurau sigarêts, yn y fangre honno nes i'r Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ddod i ben. O 1 Hydref 2015 ymlaen, bydd y gwaharddiad yn berthnasol i werthu cynhyrchion nicotin hefyd.

53. Yn y ddau fath o orchymyn, dim ond os bydd llys ynadon yn fodlon bod unigolyn a gafwyd yn euog o drosedd hefyd wedi cyflawni troseddau eraill ar o leiaf 2 achlysur blaenorol o fewn cyfnod o ddwy flynedd y caiff wneud Gorchymyn.

54. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau o dan adran 23(3), bennu ffurf y ffurflen gais, pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys a pha ffi a all fod yn daladwy. Defnyddir y weithdrefn negyddol ar gyfer y rhain oherwydd:

“Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.”³³

³³ Memorandwm Esboniadol, Adran 5, tudalennau 67-68

55. Yn ôl y ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi, y bwriad ar hyn o bryd yw gorfodi ffi o £30 i dalu am y cais ac i gofrestru un fangre, a £10 arall am bob mangre ychwanegol.³⁴

56. Nid oes darpariaeth yn y Bil sy'n cyfyngu ar lefel y ffi. Hefyd, gellid defnyddio rheoliadau a wneir o dan adran 23(3) i fynnu bod rhywun yn darparu llawer o wybodaeth fanwl mewn ffurflenni cais.

57. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud y bydd "angen datblygu union ffurf y cais gyda mewnbwn gan randdeiliaid".³⁵ Fodd bynnag, nid oes dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil.

58. Dywedodd y Gweinidog wrthym ynglŷn â chofrestru manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin:

"... It is fully the Government's intention to consult and engage with relevant stakeholders, trading standards officers, representatives from the retail sector, and so on, in drawing up the way in which that register will operate and how the regulations that surround it will be drawn up. It's for the committee, of course, to think about whether that ought to appear on the face of the Bill."³⁶

Ein barn ni

59. Nodwn y gallai'r rheoliadau o dan adran 23(3) ddarparu ar gyfer ffi i gyd-fynd â chais i rywun gael ei gynnwys ar y gofrestr. Credwn, yn sgil hynny, y dylai fod dyletswydd i ymgynghori, ar wyneb y Bil, ynglŷn â lefel y ffi honno.

60. Mae'r ddadl o blaid rhoi dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil yn gryfach yn sgil bwriad y Gweinidog i geisio barn rhanddeiliaid am y ffordd y gweithredir y gofrestr ac union ffurf y cais.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 23(3).

³⁴ Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 20

³⁵ Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 20

³⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, paragraff [35], 21 Medi 2015

Adran 40 - Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad: trosedd o ran tybaco neu nicotin

61. O dan Ddeddf 1933, gellir mynnu bod y sawl sy'n cyflawni "trosedd tybaco neu nicotin" yn gorfod cydymffurfio â Gorchmyn Mangre o Dan Gyfyngiad.
62. Mae Adran 40(2) yn mewnosod is-adrannau newydd (1A) i (1E) yn adran 12D o Ddeddf 1933. Bydd Adran 12D(1A) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu troseddau sy'n "drosedd tybaco neu nicotin" o dan Ddeddf 1933. Bydd hyn yn golygu y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu troseddau newydd y gellir rhoi Gorchmyn Mangre o Dan Gyfyngiad ar eu cyfer.
63. O dan Adran 12D (1B), dim ond os bydd trosedd yn berthnasol i gyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, hysbysebu ac ati dybaco neu gynhyrchion nicotin y caiff Gweinidogion Cymru ei phennu'n drosedd. Rhaid i'r drosedd hefyd fod yn un y gellir rhoi cosb o ddirwy lefel 4 fan leiaf ar ei chyfer (sef £2,500 ar hyn o bryd) os dim ond fel trosedd ddiannod y gellir ei rhoi ar brawf.
64. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, gallai'r rheoliadau fod yn ddyletswydd feichus ar fusnesau ac felly, dyna pam y rhoddir y weithdrefn gadarnhaol ar waith.³⁷
65. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud yr ymgysylltir â rhanddeiliaid megis Penaethiaid Safonau Masnach a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yng Nghymru³⁸ Fodd bynnag, nid oes dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil.
66. Wrth ymateb i gwestiynau am ymgynghori â rhanddeiliaid, dywedodd y Gweinidog wrthym:

"I've been giving some thought to that matter. I'm open, certainly, to the suggestion that there is a difference in significance between putting a duty to consult on the face of a Bill in relatively administrative matters like how a register should be drawn up and how it should run, and a duty to consult when new offences are being created. If the committee came to the conclusion that there should be a duty to consult on the face of the Bill in relation to section 40(2), then I'm

³⁷ Memorandwm Esboniadol, Adran 5, tudalennau 68-69

³⁸ Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 26

happy to give an indication this afternoon that I'd see the sense in that."³⁹

Ein barn ni

67. Rydym yn croesawu sylw'r Gweinidog y byddai o blaid rhoi dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil ynglŷn â'r rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud o dan adran 40(2) o'r Bil.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 12(1A) o *Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933* (fel y'i mewnosodir gan adran 40(2) o'r Bil).

Rhan 3 - Triniaethau Arbennig

68. Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i fusnesau/ymarferwyr sy'n cynnig triniaethau arbennig. Mae Adran 46 o'r Bil yn diffinio triniaethau arbennig fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

Adran 51 - Meini prawf trwyddedu; Adran 52 - Amodau trwyddedu mandadol

69. Mae Adran 51(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r meini prawf trwyddedu y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn caniatáu'r cais am drwydded triniaeth arbennig. Mae Adran 51(2) yn dweud y caiff y meini prawf trwyddedu hefyd gynnwys pethau megis: safonau cymhwysedd, y fangre neu'r cerbydau a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig neu gyfarpar.

70. Mae'r pwerau hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r gofynion cyn rhoi neu adnewyddu trwydded, i awdurdod lleol eu dilyn wrth archwilio mangre a cherbydau a nodir mewn cais am drwydded triniaeth arbennig.

71. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud y bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatblygu meini prawf trwyddedu penodol wedi'u teilwra ar gyfer pob triniaeth arbennig unigol. Er enghraifft, bydd y meini prawf trwyddedu ar gyfer unigolyn sy'n darparu gwasanaeth tatwio mewn mangre sefydlog yn wahanol i'r meini prawf ar gyfer aciwbigr sy'n darparu gwasanaeth teithiol.

³⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [37], 21 Medi 2015

72. Mae Adran 52(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau yr amodau trwyddedu mandadol sy'n berthnasol i drwyddedau triniaethau arbennig.

73. Mae'r Bil yn dweud y caiff amodau trwyddedu mandadol (ymhlith pethau eraill) ymwneud â:

- y fangre neu'r cerbydau a ddefnyddir ar gyfer triniaeth arbennig;
- y cyfarpar a ddefnyddir a safonau hylendid;
- yr wybodaeth sydd i'w darparu gan ddeiliaid trwydded, a'r ymgynghori sydd i'w gynnal â chwsmeriaid cyn ac ar ôl rhoi triniaeth arbennig;
- cadw cofnodion;
- arddangos trwydded;
- amrywio a dychwelyd trwydded.

74. Mae Adran 53 yn ei gwneud yn ddyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglŷn â'r rheoliadau a wneir o dan adrannau 51 a 52.

75. Gofynnwyd i'r Gweinidog, a ddylai rhai meini prawf sylfaenol yng nghyswllt adran 51, a rhai amodau sylfaenol yng nghyswllt adran 52, ymddangos ar wyneb y Bil.

76. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym:

"I think there are a number of reasons why we thought that would not be the best course of action ... The first and the main one for me is that ... there's an objection of principle between having some criteria on the face of the Bill and some in regulations. I think it is more sensible all round to have everything in one place; I'm especially allergic to the idea that you create two different classes of regulation. People might feel that those things that are on the face of the Bill are the really important things, and the things that are in regulation are somehow a sort of subsidiary or second class set of obligation, whereas, of course, they're not—they all have equal force in law. So, I'm a bit allergic to the idea of trying to separate the two out. I also think it makes it more difficult for the person on the ground on whom these obligations then fall that they have

to go to two different places to try and find out what it is that they are being asked to do.”⁴⁰

Ein barn ni

77. Nodwn fod y pwerau i wneud rheoliadau yn adran 51 ac yn adran 52 yn cyfeirio at faterion dewisol y gellid eu cynnwys yn y rheoliadau ond nad oes gwarant o hynny.

78. Credwn y byddai'n fuddiol cynnwys y canlynol ar wyneb y Bil:

- mewn perthynas ag adran 51, ambell faen prawf sylfaenol, craidd sy'n ymwneud â thrwyddedu er enghraifft, dangos gwybodaeth benodol ynghylch rheoli heintiau;
- mewn perthynas ag adran 52, ambell amod sylfaenol craidd, sy'n ymwneud â glanhau a hylendid, er enghraifft.

79. Nodwn wrthwynebiad y Gweinidog mewn egwyddor i gael rhai meini prawf (ac amodau) ar wyneb y Bil a rhai mewn rheoliadau. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl hon, yn enwedig am fod y Gweinidog wedi dilyn y drefn hon ar gyfer datganiadau blynyddol ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).⁴¹

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys rhywfaint o feini prawf sylfaenol, craidd sy'n ymwneud â thrwyddedu yn adran 51 a rhywfaint o amodau sylfaenol craidd yn adran 52.

Adran 58 - Rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth

80. Mae adran 58 yn sefydlu bod yn rhaid i rywun sy'n cynnal busnes, ac y rhoddir triniaeth arbennig yng nghwrs y busnes hwnnw, gydymffurfio â dau ofyniad. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol hefyd i unigolion dynodedig fel y cânt eu trin fel pe baent yn cynnal busnes at ddibenion adran 58 ac adran 59.

⁴⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraff [45], 21 Medi 2015

⁴¹ Mae adran 10 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3) yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar wyneb y Bil y mae'n rhaid eu cynnwys mewn datganiad blynyddol. Ond mae adran 10 hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu gwybodaeth arall y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad blynyddol.

81. Y gofyniad cyntaf yw bod y driniaeth yn cael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol o dan adran 59. Mae'r ail ofyniad yn sicrhau, ar ôl eu cymeradwyo, bod mangre neu gerbyd yn cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol (y darperir ar eu cyfer drwy reoliadau a wneir o dan adran 59(3)). Bydd y gofynion cymeradwyo hefyd yn berthnasol i'r sawl sy'n trefnu arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall y mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad iddynt a lle y rhoddir triniaeth arbennig gan berson yng nghwrs busnes.

82. Mae adran 58(6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliad i eithrio mangre neu gerbydau penodol rhag y gofynion cymeradwyo. O dan adran 58(7), caniateir i fangreoedd neu gerbydau gael eu disgrifio yn y rheoliadau drwy gyfeirio at:

- y personau sy'n eu rheoli neu y maent o dan eu rheolaeth;
- natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ynddynt;
- yr amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig oddi tanynt neu ynddynt; neu
- nifer yr unigolion sy'n rhoi triniaethau arbennig.

83. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn rhoi dwy enghraifft o ddefnyddio'r pŵer hwn:

- gellir eithrio'r fangre lle y rhoddir triniaeth arbennig gan unigolyn sydd wedi'i eithrio o'r gofynion cymeradwyo;
- gellir eithrio mathau penodol o fangreoedd, megis meddygfa neu ysbyty o'r gofynion cymeradwyo.⁴²

84. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y dylid dilyn y weithdrefn negyddol, gan ddweud bod pwnc y pŵer hwn yn "gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ac yn dechnegol".⁴³

85. Pan holwyd ef am ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, dywedodd y Gweinidog wrthym:

"I'm very happy to listen to the views of the committee on this. And maybe our thinking has moved on a little ... In the original discussions that I had around this, I think my understanding of our policy position at the time was that we would only be

⁴² Datganiad o Fwriad y Polisi, tudalen 35

⁴³ Memorandwm Esboniadol, Adran 5, tudalen 73

thinking of exempting premises that were already covered by other regulatory arrangements. So, a doctor's surgery, for example, or a consulting room in a pharmacist. So, they would already have regulatory cover because they would have had to have been approved by a different regime. It is possible that we may wish to think of exemptions in some other instances than that, and because of that I think the balance of argument is tipping in favour of this being through the affirmative rather than the negative procedure."⁴⁴

Ein barn ni

86. Er bod yr enghreifftiau a roddir yn nogfen bwriad y polisi i bob golwg yn rhesymol, nid oes dim darpariaeth yn y Bil sy'n cyfyngu ar ddefnyddio'r pŵer yn adran 58(6). Yn ein barn ni, gellid defnyddio'r pŵer mewn ffordd na fyddai'n "gymharol fach" ac nid yw'n ymddangos yn "dechnegol".

87. Felly, rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ac yn awgrymu y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 58(6).

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn dweud mai'r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei dilyn i wneud rheoliadau o dan adran 58(6).

Adran 76 - Pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig

88. Mae adran 76 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, y rhestr o driniaethau arbennig sydd yn adran 46. Caiff y gwelliant ychwanegu math neu ddisgrifiad o driniaeth at y rhestr, neu eu tynnu oddi arni, neu amrywio'r disgrifiad o driniaeth sydd yn y rhestr eisoes (is-adran (1)). Caniateir i driniaeth gael ei disgrifio drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) y disgrifiad o unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth; (b) y disgrifiad o unigolyn sy'n cael y driniaeth (is-adran (2)).

89. Cyn ychwanegu triniaeth newydd, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried bod y driniaeth yn un y gellir ei rhoi at ddibenion esthetig, neu at ddibenion therapiwtig, ac y gall rhoi'r driniaeth at y dibenion hynny achosi niwed i iechyd dynol (is-adran (3)). Diffinnir niwed i

⁴⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, paragraff [61], 21 Medi 2015

iechyd dynol yn adran 77(4) ac mae'n cynnwys niwed i iechyd corfforol neu feddyliol unigolyn.

Ein barn ni

90. Ni holwyd y Gweinidog am adran 76 o'r Bil ond mae ein hystyriaethau ynghylch adran 77 wedi llywio'r argymhelliad a wneir isod.

91. Mae Adran 47 yn hanfodol i Ran 3 o'r Bil. Felly, rhaid i unrhyw reoliadau o dan adran 76 sy'n diwygio'r rhestr o driniaethau yn adran 47 fod yn destun ymgynghori ac maent yn ddigon pwysig i warantu rhoi dyletswydd i ymgynghori ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan adran 76(1).

Adran 77 - Dehongli'r rhan hon

92. Mae Adran 77(1) yn rhoi ystyr y termau allweddol a ddefnyddir yn Rhan 3, gan gynnwys ystyr aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio.

93. Y diffiniad cyfredol o "dyllu'r corff" yw gwneud trydylliad yn y croen er mwyn galluogi:

- i emwaith, neu wrthrych arall, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, neu
- i emwaith gael ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn.

94. Mae'r pŵer o dan adran 77(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu'r diffiniad o "dyllu'r corff" er mwyn iddo gynnwys mewnblannu gwrthrychau, yn unol â'r disgrifiad sydd yn y rheoliadau, yng nghorff rhywun.

95. Mae'r ddogfen Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud bod angen y pŵer hwn er mwyn i'r diffiniad o "dyllu'r corff" barhau i fod yn effeithiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y rheoliadau'n dod o dan y weithdrefn negyddol oherwydd:

“Bod y pwnc yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ac yn dechnegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddarau cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i’w gilydd.”⁴⁵

96. Gofynnwyd i’r Gweinidog a ddylid dilyn y weithdrefn gadarnhaol wrth wneud y rheoliadau hyn. Dywedodd:

“... what we feel we’ve got is an area which falls within the criteria that I suggested at the very beginning, Chair, of an area that is rapidly moving and where things do change and where we thought the flexibility of the negative procedure was the right one in order to allow the law to be kept in line with development, without the National Assembly finding itself continuously having to return to issues of detail.”⁴⁶

97. Dywedodd cyfreithiwr a oedd gyda’r Gweinidog wrthym:

“In relation to body piercing, it was important to catch, as the Minister’s already said, the technical developments that are happening in the field. So, for example, the ordinary understanding of body piercing doesn’t necessarily catch flesh plugs, which are used in the ears at the moment to make a gap and you increase the gap and the bigger the hole gets. So, we wanted to make sure that we were catching items such as that. It’s not the intention that it would catch Botox or dermal fillers. If that was to be included, it would be included as a new special procedure in section 46 under the power in section 76, which the Minister’s already alluded to. So, those new sorts of things would be a new special procedure rather than amending a currently widely accepted definition of body piercing, for example.

“In relation to acupuncture and the other special procedures and the definitions given there, they were reached after thorough research and in-depth consultation with stakeholders and the wider public. Acupuncture, for example, is given this definition:

‘The insertion of needles into an individual’s tissue for remedial or therapeutic purposes.’

⁴⁵ Memorandwm Esboniadol, Adran 5, tudalen 76

⁴⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, paragraff [66], 21 Medi 2015

“So, that’s the widely accepted definition of acupuncture. If, for example, there was a change in technology and acupuncture was to be carried out using the insertion of something else, then that would not be added to acupuncture; it would be a separate special procedure, and again, added to the list in 46 under the regulation making power in 76.”⁴⁷

Ein barn ni

98. Nodwn sylwadau’r Gweinidog.

99. Fel y dywedwyd eisoes, nid yw defnyddio’r weithdrefn negyddol yn hytrach na’r weithdrefn gadarnhaol, yn ein barn ni, yn cynnig llawer mwy o hyblygrwydd nac yn arbed amser sylweddol i Lywodraeth Cymru; y cyfan y mae’n ei wneud yw darparu ar gyfer gwahanol raddau o graffu gan y Cynulliad.⁴⁸

100. Yng ngoleuni’r sylwadau a glywsom, credwn y byddai o fudd i unrhyw reoliadau sy’n manylu ynglŷn â’r gwrthrychau y gellid eu mewnbrannu yng nghorff rhywun ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Wrth lunio’r farn hon, rydym yn sylweddoli hefyd na ellir gwarantu y byddai Gweinidogion yn y dyfodol yn ychwanegu triniaethau arbennig newydd at adran 46 yn hytrach nag addasu ystyr tyllu’r corff.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil yn dweud mai’r weithdrefn gadarnhaol y dylid ei dilyn wrth wneud rheoliadau o dan adran 77(1).

Adran 101 - Dod i rym

101. Mae adran 101(1) yn nodi’r darpariaethau a ddaw i rym ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol; ac mae adran 102(1) yn nodi y daw darpariaethau eraill i rym drwy orchmynion cychwyn gan Weinidogion Cymru. Mae adran 101(3)(b) yn dweud y caiff gorchymyn wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn perthynas ag un o ddarpariaethau’r Ddeddf yn dod i rym.

102. Nid yw’r un weithdrefn yn berthnasol i wneud gorchmynion sy’n defnyddio’r pŵer o dan adran 101(3)(b).

⁴⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion paragraffau [67-70], 21 Medi 2015

⁴⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Adroddiad ar Fil Addysg (Cymru)* Tachwedd 2013, Casgliad 3

Ein barn ni

103. Rydym yn dal i gredu y dylid dilyn y weithdrefn negyddol ar gyfer pwerau gwneud gorchmynion sy'n gwneud mwy na dim ond nodi dyddiad cychwyn darpariaeth benodol.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n rhoi'r weithdrefn negyddol ar waith ar gyfer gorchmynion cychwyn a wneir yn unol ag adran 101(3)(b) o'r Bil sy'n cynnwys darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.

Atodiad 1 – Llythyr gan y Llywydd

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mehefin 2015

Annwyl David,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - cymhwysedd deddfwriaethol

Yn dilyn fy natganiad am gymhwysedd deddfwriaethol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyhoeddwyd ar 8 Mehefin, rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw at y materion yn ymwneud â chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a hawliau dynol a ystyriais wrth lunio fy marn. Nid yw'r materion yn ymwneud â hawliau dynol yn syml a bydd angen eu hystyried yn ofalus yn ystod Cyfnod 1. Yn ogystal â hynny, fel rwyf yn esbonio isod, mae'n bwysig bod y Cynulliad, a'i bwyllgorau, yn ystyried y materion hyn yn ofalus er mwyn sicrhau'r llysoedd fod hawliau dynol wedi cael eu parchu'n llawn a bod y Bil, felly, o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

Yn fy marn i, er bod y Bil yn bennaf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ni fyddai adrannau 4 (7), 5 (6), ac 11(7) a pharagraffau 6 a 9 yn Atodlen 1 o fewn ei gymhwysedd. Y rheswm dros hyn yw bod y darpariaethau hyn yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol â Rhan 2 o Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf Llywodraeth Cymru), i'w cynnwys o fewn cymhwysedd y Cynulliad a, hyd yma, ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwn.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd rwyf wedi dehongli adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn flaenorol, sef bod angen imi ystyried a fyddai'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad pe bai'n cael ei basio fel y'i drafftwyd pan gafodd ei gyflwyno. Fel y gwyddoch, ni all Deddf Llywodraeth Cymru rwystro Bil rhag cael ei gyflwyno hyd yn oed os nad yw, yn fy marn i, o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Mae'n rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil hefyd lunio barn ynghylch a yw'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Yn wahanol i'r sefyllfa o ran fy marn i, mae adran 110 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhwystro Bil rhag cael ei gyflwyno os nad yw'r Aelod yn datgan yn bendant y byddai'r Mesur o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Yn ôl a ddeallaf, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur, wedi dibynnu ar ddehongliad gwahanol o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n caniatáu iddo ddatgan "y byddai" holl ddarpariaethau'r Mesur, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd y Cynulliad, yn yr ystyr y byddai hyn yn wir pe bai'r cydsyniad angenrheidiol yn cael ei roi erbyn i'r Bil gael ei basio.

Hawliau Dynol

Y cefndir

O dan Adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad os yw'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Rhan 2, Pennod 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n gwneud manau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig yn ddi-fwg. Cyfeirir at y rhain fel 'mangreoedd di-fwg'. Yn y cyd-destun hwn, mae 'di-fwg' yn golygu bod ysmegu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (sef 'sigarêts electronig,) yn cael eu gwahardd, os nad yw'r adeilad wedi'i eithrio gan reoliadau a wnaed o dan adran 10 o'r Bil.

O ran gweithleoedd, mae adran 6 o'r Bil yn darparu fel a ganlyn.

Rhaid i weithleoedd fod yn ddi-fwg. At y dibenion hyn, ystyr " gweithle" yw unrhyw fan:

- lle mae mwy nag un person yn gweithio (p'un ai ar yr un pryd ai peidio); neu
- lle dim ond un person sy'n gweithio, ond mae'n agored i'r cyhoedd

Os dim ond rhan o'r adeilad sy'n weithle, dim ond y rhan honno sy'n gorfod bod yn ddi-fwg. Os oes rhan o'r gweithle nad yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, nid oes rhaid i'r rhan honno fod yn ddi-fwg chwaith.

Ond mae'n rhaid i bob gweithle fod yn ddi-fwg bob amser - hy hyd yn oed y tu allan i oriau gwaith - ac eithrio gweithleoedd sydd hefyd yn annedd (tŷ) neu'n rhan o annedd (adran 6 (5) o'r Bil). Yn y sefyllfa honno, nid oes rhaid i'r gweithle fod yn ddi-fwg pan nad yw'n cael ei ddefnyddio fel man gwaith.

Mae adran 6 (5) yn sôn am hawliau dynol gwrthgyferbyniol:

- (a) ysmygwyr y mae eu cartrefi hefyd yn weithleoedd; a
- (b) gweithwyr a gyflogir mewn gweithleoedd o'r fath ac sy'n dymuno diogelu eu hiechyd rhag mwg ("gweithwyr").

I fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, rhaid i'r Mesur sicrhau cydbwysedd rhwng yr hawliau hyn mewn ffordd sy'n "gymesur" â'r nod cyfreithlon o ddiogelu iechyd y cyhoedd, yng nghyd-destun cartref preifat person. Caiff yr hawliau hyn eu diogelu gan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac, felly, gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Gofynnwyd am farn arbenigol gan un o brif fargyfreithiwr hawliau dynol ynghylch a yw'r Bil yn sicrhau'r cydbwysedd hwn yn briodol. Dywedodd y byddai gan y Cynulliad ddisgresiwn eang wrth bwysu a mesur hawliau erthygl 8 y gwahanol grwpiau o unigolion dan sylw. Fodd bynnag, pwysleisiodd y bydd y llysoedd yn llawer mwy tebygol o barchu'r disgresiwn os yw'r Cynulliad wedi ystyried yn ofalus sut i sicrhau'r cydbwysedd, a hynny ar sail y dystiolaeth berthnasol. Mae hyn yn gyson â'r hyn a ddywedodd y rhan fwyaf o'r Goruchaf Lys yn y dyfarniad diweddar ar yr achos yn ymwneud â'r *Bil Adennill Costau Meddygol Clefydau Asbestos (Cymru)*.

O ystyried:

- (a) bod yr effaith ar weithwyr yn debygol o ddod o fewn ffiniau disgresiwn y Cynulliad (yn amodol ar dystiolaeth feddygol); a'r
- (b) modd y mae'r Bil yn pwysu a mesur hawliau ysmygwyr;

deuthum i'r casgliad y byddai adran 6 (5) o'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

(a) Hawliau Gweithwyr

Mater perthnasol iawn i'r Cynulliad ei ystyried, wrth bwysu a mesur hawliau ysmygwyr a phobl nad ydynt yn ysmegu yng nghyd-destun gweithio yng nghartref yr ysmygwr, yw effeithiau mwg trydydd-law ac anweddu gweddilliol dyfeisiau mewnanadlu nicotin. Rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'ch Pwyllgor gael tystiolaeth feddygol, yn ystod Cyfnod 1, am y materion hyn.

Wrth bwysu a mesur yr hawliau, gall y Cynulliad ystyried y ffaith bod gan weithwyr rywfaent o ddewis o ran lle y maent yn gweithio.


(b) Hawliau ysmygwyr sy'n cyflogi eraill yn eu cartrefi eu hunain,

Mae cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn eu cartrefi eu hunain yn amharu'n sylweddol ar eu gallu i fwynhau bod yn eu cartrefi, yn enwedig pan all arwain at gosb droseddol. Mae'r Bil yn ymestyn yr hawl i ysmegu mewn cartref sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel gweithle, drwy ganiatáu i'r preswilydd ysmegu hyd yn oed yn y rhannau hynny sy'n cael eu defnyddio fel gweithle, ar yr amod ei fod yn gwneud hynny'r tu allan i oriau gwaith.

Fodd bynnag, os ydych yn ystyried y sefyllfa bresennol o dan is-ddeddfwriaeth, mae'r Bil yn symud y cydbwysedd oddi wrth hawl ysmygwyr drwy gyfyngu ymhellach ar yr hawl i ysmegu mewn rhannau eraill o'r cartref.

Crynodebau byr iawn o'r materion yw hyn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chynghor yn eu cylch, neu ynghych unrhyw un o'r profion cymhwysedd arall a ddefnyddiais mewn perthynas â'r Bil, bydd y swyddogion sy'n ymdrin â'ch ymholiad yn falch o'ch cynorthwyo.

Rwyf yn anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.



Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd